# Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Ionawr 2025

Papur Technegol Cefndir Rhif 6

## Cynllun Adnau

Mwynau




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd 2021 i 2036

## Papur Technegol Cefndir Rhif 6

## Mwynau

## Ionawr 2025

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Cynnwys

Cynnwys ..... Error! Bookmark not defined.

1. Cyflwyniad ..... 3
2. Cyd-destun Polisi ..... 3
3. Perthynas â Chynlluniau a Chyhoeddiadau Eraill ..... 4
4. Adnoddau Calchfaen ..... 5
5. Banc Tir Calchfaen ..... 6
6. Parthau Clustogi Calchfaen ..... 6
7. Ardal Galchfaen a Glustnodwyd i'w Ddiogelu ..... 8
8. Ardaloedd Diogelu ..... 10

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae mwynau yn adnodd gwerthfawr ond sydd â phen draw iddo. Caerdydd yw un o gynhyrchwyr a defnyddwyr mwynau mwyaf y rhanbarth. Mae’r mwynau a gynhyrchir yng Nghaerdydd yn cynnwys creigiau caled o chwareli (calchfaen carbonifferaidd a dolomit) a thywod wedi'i garthu o’r môr a’i lanio yn Nociau Caerdydd. Mae yna hefyd dywod a graean ar y tir, ac adnoddau Agregau Manyleb Uchel (AMU) tywodfaen.

1.2 Bydd y papur cefndir hwn yn darparu gwybodaeth am yr ystod o adnoddau mwynau a chronfeydd wrth gefn sy'n bodoli yng Nghaerdydd a chyfiawnhad o'r polisïau mwynau sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl Newydd. Bydd yn rhoi esboniad ynghylch y canlynol:

Calchfaen
- Adnoddau calchfaen a banc tir
- Parthau clustogi
- Ardaloedd adnoddau wedi eu gwarchod
- Ardal ddiogelu adnodd calchfaen

Tywod a graean
- Ardal ddiogelu tywod a graean
- Diogelu angorfeydd tywod

AMU tywodfaen
- Ardal ddiogelu adnoddau AMU tywodfaen

# 2. Cyd-destun Polisi

2.1 Mae polisi cynllunio sy'n ymwneud â mwynau wedi'i gynnwys yn:
- Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 12 (2024)
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN1) (2004)
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN2) (2009)
- Polisi Carthu Agregau Morol Dros Dro (IMADP) (2004)

2.2 Mae canllawiau penodol ar fanciau tir mwynau wedi'u cynnwys ym mharagraff 5.14.15 PCC a pharagraff 49 MTAN1. Mae'r rhain yn nodi y dylid cynnal banc tir 10 mlynedd o leiaf o gerrig mâl gydol cyfnod y Cynllun. Mae canllawiau ar barthau clustogi mwynau wedi'u cynnwys ym mharagraff 5.14.44 PCC. Mae hyn yn nodi y dylai parthau clustogi ddarparu meysydd diogelu o amgylch gweithfeydd mwynau a ganiateir ac arfaethedig lle dylid gwrthsefyll datblygiadau newydd a fyddai'n sensitif i effaith andwyol, gan gynnwys ardaloedd preswyl, ysbytai ac ysgolion. Mae paragraff 71 MTAN1 yn nodi, mewn chwareli creigiau caled, y dylid mabwysiadu lleiafswm

pellter parth clustogi o 200m.  Mae canllawiau ar ddiogelu adnoddau mwynau wedi'u cynnwys ym mharagraff 5.14.7-9 PCC.  Mae hyn yn datgan y dylid nodi ardaloedd sydd i'w diogelu ar fapiau cynigion a dylai polisïau ddiogelu adnoddau mwynau rhag mathau eraill o ddatblygiad parhaol a fyddai naill ai'n eu sterileiddio neu'n rhwystro echdynnu.   Mae canllawiau ar ddiogelu tywod a graean ar y tir wedi'u cynnwys ym mharagraff 32 MTAN1, gan nodi, er y cydnabyddir nad yw cloddio ar y tir yn briodol ar hyn o bryd, rhaid diogelu'r adnoddau i'w defnyddio o bosib gan genedlaethau'r dyfodol o ystyried eu bod yn weddol brin yn rhanbarthol.

## 3. Perthynas â Chynlluniau a Chyhoeddiadau Eraill

3.1 Mae Caerdydd yn aelod cyfansoddol o Weithgor Agregau Rhabarthol y De (GARhD). Yn 2020 cyhoeddwyd ail adolygiad o'r Papur Technegol Rhanbarthol (RTS 2il Adolygiad).  Mae hwn yn darparu strategaeth ar gyfer cyflenwi agregau yn y rhanbarth yn y dyfodol.  Mae'n rhagweld y galw am agregau yn y dyfodol fel y gellir cynllunio ar gyfer datblygu mwynau mewn ffordd gymesur ac a reolir gan awdurdodau cynllunio lleol.  Mae'r RTS 2il adolygiad yn cynnig argymhellion penodol i'r ACLlau cyfansoddol ynghylch y symiau o agregau y bydd angen eu cyflenwi o bob ardal (dosraniadau) a natur a maint unrhyw ddyraniadau y mae angen eu gwneud o fewn CDLlau i sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn cael ei chynnal gydol cyfnod y Cynllun.

3.2 I Gaerdydd, mae'r RTS 2il adolygiad yn nodi dosraniad o ddim ar gyfer tywod a graean a enillwyd o'r tir.  Mae'n dweud y dylai Caerdydd wneud darpariaeth ar gyfer 1.411 miliwn tunnell o gerrig mâl y flwyddyn.  Gan ystyried y banc tir presennol, mae diffyg yn y swm o agregau cerrig mâl.  Dylai'r CDLl Newydd ddangos sut y gellir cwrdd â'r diffyg o 7.475mt erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.

3.3 Mae Caerdydd yn rhan o Is-ranbarth Dinas Caerdydd sy'n cynnwys Caerdydd, Caerffili, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.   Cynhyrchwyd Datganiad Safbwynt ar Gydweithio Isranbarthol gan yr is-ranbarth ym mis Gorffennaf 2022.  Mae hwn yn nodi y dylai Caerdydd wneud dyraniadau sy'n dod i gyfanswm o 7.475mt.

3.4 Mae GARhD hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg blynyddol o wybodaeth am werthiant agregau.  Mae Adroddiad Blynyddol GARhD 2022 (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024) yn rhoi gwybodaeth am batrymau cyflenwi, a'r galw am agregau.  Mae'r wybodaeth a gesglir gan yr arolwg yn cael ei chyflwyno yn yr adroddiad ar ffurf a goladwyd, yn hytrach nag fel dychweliadau chwareli neu awdurdodau lleol unigol, er mwyn diogelu cyfrinachedd masnachol gweithredwyr unigol.

3.5 Comisiynodd Llywodraeth Cymru (LlC) Symonds i gynhyrchu South Wales Sand and Gravel: Appraisal of Land-based Extraction in South Wales (2,000). Astudiaeth annibynnol yw hon sy'n asesu natur a dosbarthiad adnoddau tywod a graean posibl ar y tir ac adolygiad o opsiynau cyflenwi eraill. Mae'n nodi ardaloedd o dywod ac adnoddau graean y dylid eu diogelu o fewn y CDLlN.

3.6 Mae'r Mapiau Adnoddau Mwynau Cenedlaethol a Mapiau Diogelu Agregau Cenedlaethol Cymru yn dangos ardaloedd diogelu mwynau, y dylid eu diogelu. Dylid dangos yr ardaloedd diogelu ar y Map Cynigion a dylai polisïau ddiogelu'r adnoddau mwynau rhag mathau eraill o ddatblygiad parhaol a fyddai'n sterileiddio'r adnodd, neu'n rhwystro echdynnu yn y dyfodol.

## 4. Adnoddau Calchfaen

4.1 Mae llawer o'r tir uwch yng Ngogledd Caerdydd wedi ei ffurfio o Galchfaen Carboniferaidd, sy'n ffurfio band o Bentyrch tua'r dwyrain at Dongwynlais. Mae calchfaen yn graig waddodol, sy'n cynnwys calsiwm carbonad yn bennaf. Mae'r calchfaen wedi'i ddolomiteiddio mewn mannau i raddau amrywiol h.y. mae'n cynnwys hyd at 45% magnesiwm carbonad. Mae'r brigiad calchfaen gogleddol yn cynrychioli ffin ddeheuol maes glo De Cymru.

4.2 Saif Chwarel Ffynnon Taf ar ochr ddeheuol crib Mynydd y Garth sy'n edrych dros Bentre-poeth Mae'r chwarel yn cynhyrchu calchfaen carboniferaidd ac mae'n weithredol ar hyn o bryd. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2023 i amrywio'r amodau sy'n llywodraethu gweithrediad y chwarel i ganiatáu estyniad o 1.8 hectar a fydd yn rhyddhau pedair miliwn tunnell ychwanegol ac yn ymestyn oes weithredol y chwarel am saith mlynedd ychwanegol hyd at 2035. Gallai cais presennol i ddyfnhau'r chwarel esgor ar dair miliwn tunnell arall os caiff ei gymeradwyo.

4.3 Lleolir Chwarel Ton Mawr ar ochr ddeheuol crib Mynydd y Garth, gerllaw Chwarel Ffynnon Taf. Ar hyn o bryd mae'r chwarel yn anweithredol, er ei bod yn cael ei gweithio'n bennaf ar sail ymgyrchoedd yn ôl y galw. Mae ei hallbwn wedi'i gyfyngu i 150,000 tunnell y flwyddyn. Mae cais cynllunio i amrywio amodau i ymestyn y cyfnod amser ar gyfer gweithio’r chwarel hyd at fis Rhagfyr 2042 yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

4.4 Lleolir Chwarel Creigiau ar ochr y bryn i'r dwyrain o Creigiau, rhwng pentrefi Creigiau a Phentyrch. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2018 ar gyfer estyniad i'r de-ddwyrain i'r chwarel a chydgrynhoi'r caniatadau presennol ynghlwm â’r safle. Nodwyd ardal de-ddwyreiniol Chwarel Creigiau fel ardal a ffefrir yn y CDLl mabwysiedig. Nodwyd yr ardaloedd deheuol a gorllewinol fel ardaloedd lle byddai cau chwarelydda yn briodol. Datrysodd caniatâd 2018 y materion hyn.

4.5 Lleolir Chwarel Blaengwynlais ar ochr ddwyreiniol Bryn Rhiwbeina ac mae'n ymestyn ar draws ffin y sir â Chaerffili. Mae'r rhan fwyaf o'r cronfeydd wrth gefn sydd heb eu gweithio yn dod o fewn ardal weinyddol Caerffili, er bod y mynediad a'r ardaloedd prosesu o fewn Caerdydd. Mae'r chwarel yn segur ar hyn o bryd.

4.6 Lleolir Chwarel Cefn Garw i'r gogledd o Dongwynlais, i'r de-ddwyrain o Heol-y-Fforest. Gweithiwyd y chwarel ddiwethaf ym 1987 ac mae'n segur ar hyn o bryd. Mae gwaith sypynnu concrit ger mynedfa'r chwarel, er bod yr holl ddeunydd a ddefnyddir yn y gwaith yn cael ei gludo i'r safle.

## 5. Banc Tir Calchfaen

5.1 Mae'r banc tir yn cynnwys cronfeydd wrth gefn o fwynau, hynny yw, adnoddau mwynau sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer eu gweithio. Mae'r banc tir yn cynnwys swm yr holl gronfeydd wrth gefn a ganiateir mewn safleoedd gweithredol ac anweithredol. Mae paragraff 5.14.15 PCC yn datgan y dylid cynnal banc tir 10 mlynedd o leiaf o gerrig mâl yn ystod cyfnod cyfan y Cynllun.

5.2 Mae Adroddiad Blynyddol GARhD 2022 yn dangos bod gan Gaerdydd fanc tir o gerrig mâlo am 26 mlynedd. Fodd bynnag, dywed yr RTS 2[il] adolygiad y dylai Caerdydd ddarparu 1.411mt o agregau cerrig mâl y flwyddyn. Gan ystyried y banc tir presennol, mae diffyg o 7.475 mt. y dylid ei fodloni erbyn 2041. Mae Datganiad Safbwynt Is-ranbarth Dinas Caerdydd hefyd yn nodi y dylid cael dyraniadau i wneud iawn am y diffyg o 7.475mt. Ers cyhoeddi'r Datganiad Safbwynt, mae cais am 4mt ychwanegol yn Chwarel Ffynnon Taf wedi cael ei gymeradwyo. Mae cais presennol yn cynnig dyfnhau Chwarel Ffynnon Taf a fyddai'n esgor ar 4mt, os caiff ei gymeradwyo. Mae yna hefyd Ardal a Ffefrir ar gyfer Gwaith Mwynau a nodwyd yn y CDLl Newydd yn Chwarel Ton Mawr pe bai angen datblygu ymhellach i fodloni'r diffyg a nodwyd.

## 6. Parthau Clustogi Calchfaen

6.1 Diffinnir parthau clustogi o amgylch cronfeydd ac adnoddau mwynol calchfaen er mwyn darparu ardal warchod sy'n atal tresmasu gan ddatblygu anghydnaws, a allai achosi sterileiddio, ac i leihau effaith amgylcheddol chwarela trwy wahanu datblygiadau sensitif a gweithio mwynau. Mae MTAN1 yn argymell isafswm pellter parth clustogi o 200m ar gyfer chwareli creigiau caled. Yn unol â'r canllawiau hyn, dangosir parth clustogi o 200 metr o amgylch pob gwarchodfa ac adnoddau calchfaen a dangosir adnoddau calchfaen ar y Map Cynigion

6.2 Gall chwarel effeithio ar ei hamgylchedd mewn amryw o ffyrdd. Gall gweithrediadau o ddydd i ddydd gynhyrchu sŵn, llygredd llwch ac aflonyddwch cyffredinol yn y cyffiniau agos. Mae'r rhain yn gymharol leol eu heffaith. Gellir profi aflonyddwch gan draffig ar hyd llwybrau sy'n arwain at chwarel, er bod yr effaith ar amwynder yn debygol o leihau wrth ymbellhau o'r safle.

6.3 Yng Nghaerdydd, caniateir i bob chwarel weithredu gan ddefnyddio ffrwydron, ac mae pob chwarel weithredol yn gwneud hynny. Nid yw gweithrediadau ffrwydro yn digwydd yn barhaus, ond pan fydd ffrwydro'n digwydd, gellir teimlo'r aflonyddwch y mae'n ei greu dros ardal sylweddol. Mae anamledd cymharol aflonyddwch oherwydd gweithrediadau ffrwydro yn cael ei ystyried wrth benderfynu a yw ffrwydro'n debygol o achosi colli amwynder annerbyniol. Ffrwydro yw achos y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd am chwarela, ac anaml iawn y bydd yr effeithiau eraill yn peri pryder i'r cyhoedd.

6.4 Gellir nodi'r prif ffynonellau aflonyddwch yn deillio o ffrwydro yn ôl pedwar paramedr:

- Dirgryniad daear;
- Sŵn;
- Gorbwysedd aer (tonnau sioc); a
- Perygl o graig yn chwyrlïo.

Mae effeithiau eraill i ffrwydro, fel llwch, yn annhebygol o effeithio ar ardaloedd y tu allan i'r chwarel ar achlysuron digonol er mwyn cael eu hystyried yn annerbyniol.

6.5 Amcan y parth clustogi yw diogelu defnydd tir sydd fwyaf sensitif i effaith gweithrediadau mwynau trwy sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai fod yn gwrthdaro. Mae ymchwil wedi dangos bod pobl sy'n byw yn agos at weithfeydd mwynau yn ystyried mai llwch yw prif effaith echdynnu mwynau ac unrhyw weithrediadau prosesu, ac yna traffig, a sŵn a dirgryniad yn sgil ffrwydro."

6.6. O fewn y parth clustogi, ni ddylid cymeradwyo unrhyw ddatblygiad sensitif newydd nac echdynnu mwynau. Diffinnir datblygiad sensitif fel unrhyw adeilad a feddiannir gan bobl yn rheolaidd ac sy'n cynnwys ardaloedd o dai, hosteli, mannau cwrdd, ysgolion ac ysbytyau lle gellid disgwyl safon dderbyniol o amwynder. Gallai datblygu sensitif hefyd gynnwys datblygiad diwydiannol technoleg uwch arbenigol lle bo gofynion gweithredol yn galw am lefel uchel o amwynder."

## Tai Eisoes Wedi'u Lleoli O Fewn Parthau Clustogi

6.7 O fewn rhai ardaloedd clustogi, mae tai yn bodoli eisoes. Mae'n anymarferol cael gwared ar y tai na'r chwarel, ond ni ddylid dwysau'r mater drwy ganiatáu mwy o dai nac estyniad i'r chwarel.

6.8 O fewn parthau clustogi, gall tri math o ddatblygiad preswyl ddigwydd:

- Ardal adeiledig fawr;
- Grŵp bychan o dai; neu

- Tŷ unigol.

Ceir enghreifftiau o dai unigol ym mhob parth clustogi, ond ni all bodolaeth un tŷ gyfiawnhau adeiladu mwy o dai o'i gwmpas o fewn y parth clustogi. Ni ddylid gwaethygu'r problemau a achosir gan fodolaeth grwpiau bach o dai presennol o fewn y parthau clustogi trwy ganiatáu mwy. I'r gwrthwyneb, byddai hefyd yn afresymol atal mewnlenwi, neu ailddatblygu, safle o fewn ardal adeiledig bresennol, er enghraifft, un tŷ ychwanegol o fewn datblygiad presennol. Ni fyddai estyniad ar ochr bellaf ardal adeiledig bresennol yn cael mwy o effaith niweidiol ar y gwarchodfeydd mwynau na'r ardal adeiledig ei hun. Fodd bynnag, byddai estyniad i ddatblygiad yn nes at y chwarel yn arwain at fwy o waharddiadau yn cael eu rhoi ar waith chwarelyddol na fyddai'n cael ei ffafrio.

# 7. Ardal Galchfaen A Glustnodwyd I'w Diogelu

7.1 Mae Polisi MW1 yn nodi ardal a ffefrir o adnoddau hysbys sy'n addas ar gyfer gweithio calchfaen yn Chwarel Ton Mawr yn y dyfodol. Nodwyd yr adnodd hwn yn y CDLl mabwysiedig ac mae'n parhau i fod yn addas ar gyfer ei weithio yn y dyfodol. Mae'r fethodoleg lle cafodd yr adnodd hwn ei nodi ar gyfer ei ddiogelu wedi'i hamlinellu isod. Defnyddiwyd techneg ridyll dau gam. Yn gyntaf, tynnwyd pob rhan o'r Sir a oedd yn destun set sylfaenol o gyfyngiadau o'r ystyriaeth, ac yn ail, dadansoddwyd yr ardaloedd hynny sy'n weddill (ardaloedd astudio) yn fanwl yn erbyn set eilaidd o gyfyngiadau.

## Cyfyngiadau Sylfaenol

7.2 Mae gweithio mwynau yn bosibl dim ond pan fo deunyddiau masnachol ddefnyddiol yn bodoli, ac ond yn bosib lle mae'r mwynau hynny'n hygyrch. Nid yw caniatâd cynllunio ar gyfer gweithio mwynau yn debygol o gael ei roi lle byddai'n achosi niwed sylweddol i'r amgylchedd, neu lle byddai'n debygol o atal defnydd tir pwysig arall.

7.3 Defnyddiwyd y cyfyngiadau sylfaenol canlynol i nodi'r rhannau hynny o Gaerdydd:
a) Sydd yn gorwedd o fewn brigiadau o adnoddau calchfaen a allai fod yn ddefnyddiol;
b) Nad sydd yn cynnwys tir o ansawdd amaethyddol uchel (Graddau 1, 2 a 3a)
c) Nad ydynt wedi eu meddiannu gan adeiladau parhaol, ac eithrio adeiladau fferm amhreswyl;
ch) Nad ydynt o fewn 200m i unrhyw eiddo preswyl;
d) Nad ydynt yn cynnwys nac effeithio ar ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer gwarchodaeth arbennig;
dd) Nad ydynt yn cynnwys neu'n gorwedd yn agos at dir gyda chaniatâd dilys ar gyfer datblygiad anghydnaws.

## Cyfyngiad A

7.4 Y brif ffynhonnell ddata ar gyfer adnabod adnoddau calchfaen a allai fod yn ddefnyddiol oedd y BGS/DETR 'Gwybodaeth am Adnoddau Mwynau ar gyfer Cynlluniau Datblygu yn Ne Cymru' a nododd yr holl adnoddau calchfaen carbonifferaidd a Liasig posibl sy'n fasnachol ddefnyddiol. Mewn llawer o ardaloedd, mae calchfeini yn gorwedd o dan ddyddodion o glogfaen a deunydd iau eraill. Gall y gost o gael gwared ar y deunydd uchaf hwn leihau hyfywedd masnachol gweithio mwynau. At ddibenion yr ymarfer hwn, diystyriwyd posibilrwydd gweithio o'r fath. Ni aseswyd gwerth masnachol yr adnoddau calchfaen.

## Cyfyngiad B

7.5 Ystyrir mai tir amaethyddol graddau 1,2 a 3a fel y'u dosbarthir gan y Dosbarthiad Tir Amaethyddol yw'r gorau a mwyaf amlbwrpas. Mae'r cyfyngiad hwn yn amddiffyn tir o'r fath. Byddai'r mwyn o dan yr wyneb yn parhau i fod ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ond ar hyn o bryd rhoddir blaenoriaeth i ansawdd amaethyddol.

## Cyfyngiad C

7.6 Mae'r cyfyngiad hwn yn cydnabod bod adnoddau mwynau o dan yr wyneb fel arfer yn cael eu colli am byth ar ôl adeiladu drostynt gan ddatblygiadau parhaol. Yn gyffredinol, gellir ail-leoli adeiladau amaethyddol yn fwy parod nag adeiladau eraill ac nid ydynt o reidrwydd yn atal gwaith mwynau yn barhaol.

## Cyfyngiad Ch

7.7 Gall datblygiad sensitif cyfagos atal gweithio mwynau rhag digwydd. Mae paragraff 71 o MTAN1 yn gosod isafswm pellter o 200m ar gyfer parthau clustogi o amgylch chwareli creigiau caled.

## Cyfyngiad D

7.8 Roedd hwn yn cwmpasu'r holl ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n statudol gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth, Henebion Hynafol ac Adeiladau Rhestredig.

## Cyfyngiad Dd

7.9 Efallai y bydd gan beth tir ganiatâd cynllunio eisoes ar gyfer datblygu a fyddai'n gwrthdaro â datblygiad mwynau. Rhoddwyd amddiffyniad digonol rhag effeithiau gweithio mwynau i dir sydd i’w ddatblygu ar gyfer defnydd anghydnaws.

## Cyfyngiadau Eilaidd

7.10 Yna dadansoddwyd yr Ardaloedd Astudio canlyniadol yn fanwl. Cymhwyswyd set eilaidd o gyfyngiadau i'r Ardaloedd Astudio i ddileu ardaloedd sydd yn:
E) Croesi priffyrdd pwysig;
F) Mewn ardaloedd amlwg yn weledol;
Ff) Cynnwys coetiroedd hynafol, coetiroedd sy'n bwysig i'r dirwedd neu'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed;
G) Cynnwys neu'n ffurfio rhan o Warchodfa Natur Leol neu Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur;
Ng) Cynnwys, neu'n ffurfio rhan o, nodweddion tirwedd pwysig;
H) O faint neu ffurfwediad annigonol;
I) Yn arbennig o anodd cael mynediad iddynt;
L) O werth hamdden sylweddol.

Defnyddiwyd y cyfyngiadau eilaidd hyn i'r ardaloedd astudio a nodwyd yn sgil cymhwyso'r Cyfyngiadau Sylfaenol. Arweiniodd y broses at adnabod dwy ardal galchfaen. Mae'r rhain yn ffinio â chwareli presennol yn Chwarel Creigiau a Chwarel Ton Mawr. Yn y cyfamser rhwng y CDLl mabwysiedig a'r CDLl Newydd, mae estyniad i Chwarel Creigiau wedi cael caniatâd cynllunio. Felly, yn y CDLl Newydd dim ond Chwarel Ton Mawr sy'n cael ei nodi fel ardal a ffefrir o adnodd hysbys.

# 8. Ardaloedd Diogelu

8.1 Mae paragraffau 5.14.7 i 5.14.9 Polisi Cynllunio Cymru yn datgan ei bod yn bwysig bod mynediad at adnoddau mwynau y gallai fod eu hangen ar gymdeithas yn cael ei ddiogelu er mwyn atal sterileiddio drwy fathau eraill o ddatblygiad parhaol, neu rwystro echdynnu yn y dyfodol. Dylid adnabod a dangos ardaloedd i'w diogelu ar y Map Cynigion a dylai polisïau ddiogelu adnoddau mwynau posibl. Nid yw diogelu ardaloedd o adnoddau mwynau hysbys yn rhoi arwydd bod y posibilrwydd o weithio mwynau wedi'i dderbyn yno.

8.2 Mae'r Mapiau Adnoddau Mwynau Cenedlaethol a Mapiau Diogelu Agregau Cenedlaethol Cymru yn nodi ardaloedd y dylid eu diogelu ar Fapiau Cynigion a'u hamddiffyn rhag datblygiad. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Ardal ddiogelu adnodd calchfaen
- Ardal ddiogelu tywod a graean
- Ardal ddiogelu AMU tywodfaen.

## Adnodd Calchfaen

8.3 Nodwyd yr holl adnoddau calchfaen masnachol defnyddiol posibl gan y BGS/DETR 'Gwybodaeth am Adnoddau Mwynau ar gyfer Cynlluniau Datblygu yn Ne Cymru'.

Dangoswyd y rhain ar y Map Cynigion a byddant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o ddatblygiad parhaol o dan bolisi MW7.

## Adnodd Tywod A Graean Ar Y Tir

8.4 Mae gan Gaerdydd ardaloedd bach o dywod ac adnoddau graean yng ngogledd a dwyrain y Ddinas. Mae'n annhebygol y byddai'n fasnachol hyfyw i weithio'r ardaloedd adnoddau hyn ar hyn o bryd, gan fod ffynonellau carthu agregau morol yn darparu cyflenwad digonol i fodloni'r mwyafrif o'r galw yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, o ystyried pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor cyflenwi agregau o ffynonellau morol, mae angen diogelu'r adnoddau tir hyn i'w defnyddio yn y dyfodol. Mae'r adnoddau tywod a graean wedi'u nodi ar y Map Cynigion ac mae Polisi MW7 yn darparu strategaeth hirdymor i ddiogelu'r hyn a allai ddod yn adnodd strategol yn y dyfodol.

## Agregau Tywodfaen Manyleb Uchel

8.5 Mae ardaloedd o agregau tywodfaen manyleb uchel (AMU) yng ngogledd y sir. Mae'r ardaloedd AMU wedi eu nodi ar y Map Cynigion ac mae Polisi MW7 yn darparu strategaeth hirdymor i ddiogelu'r adnodd a chynnal ei botensial i'w ddefnyddio yn y dyfodol, os bydd hyn yn angenrheidiol.

## Tywod A Graean Carthu Morol

8.6 Mae cyngor a gynhwysir ym Mholisi Carthu Agregau Morol Dros Dro (2004) a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol 2[il] Adolygiad yn cynghori y dylid adnabod angorfeydd presennol a phosibl i'w diogelu yn y CDLl i ddiogelu'r llif presennol a photensial y tywod a graean morol, craig galed a chydrannau eilaidd. Felly, dangosir y glanfeydd presennol ar y Map Cynigion ac fe'u diogelir gan bolisi MW6.

## Adnoddau Glo

8.7 Ers mabwysiadu'r CDLl presennol, mae canllawiau polisi cenedlaethol sy'n ymwneud ag adnoddau glo wedi newid. Mae paragraff 5.10.17 PCC yn datgan nad oes angen diogelu adnoddau glo sylfaenol. Nid oes angen bellach nodi ardaloedd lle na fyddai gweithrediadau glo yn dderbyniol.